# Sgyrsiau Bwyd Caerdydd: Adroddiad Llawn










Lleisiau'r gymuned yn helpu i greu system fwyd iachach, decach a mwy cynaliadwy

bwyd Caerdydd

# Adroddiad Sgyrsiau Bwyd Da Caerdydd

**Gan Sarah Younan ar ran Bwyd Caerdydd**

## CYNNWYS


1. Crynodeb Gweithredol
2. Cefndir
    a. Beth yw'r Sgyrsiau Bwyd
    b. Sgyrsiau Bwyd yng Nghaerdydd
3. Methodoleg
    a. Fformatau'r gweithdai
    b. Recriwtio a chynnal y gweithdai
    c. Y Grwpiau Cyfranogwyr
4. Canfyddiadau Allweddol – Golwg Fanwl ar yr Atebion
    a. Ymwreiddio Llythrennedd Bwyd i Bawb
    b. Lleihau Gwastraff Bwyd a Deunydd Pacio
    c. Cefnogi Cadwyni Cyflenwi Bwyd Lleol a Chynaliadwy

    ch. Arweinyddiaeth Gryfach gan y Llywodraeth
    d. Sicrhau bod Bwyd Iach yn Fforddiadwy a Hygyrch
5. Trafodaeth
    a. Cydfanteision a Dymuniadau sy'n Gwrthdaro
    b. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
    c. Beth Nesaf
6. Atodiad
    a. Taflen Recriwtio
    b. Agenda Gweithdy: Agenda a gweithgareddau hanner diwrnod (3awr 40m)
    c. Agenda Gweithdy: Agenda a gweithgareddau sesiwn 90 munud

    ch. Fformat gwrthrych bwyd ac ymatebion cyfranogwyr
    d. Nodiadau Bras y Cyfranogwr
    dd. Nodiadau wedi'u codio yn ôl thema

Sgyrsiau Bwyd Caerdydd 2025

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Ym mis Mawrth 2025, cynhaliodd Bwyd Caerdydd gyfres o Sgyrsiau Bwyd gan ddefnyddio'r pecyn cymorth a ddatblygwyd gan y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad (FFCC). Daeth mwy na 90 o gyfranogwyr ynghyd yn y gweithdai hyn o gymunedau amrywiol ar hyd a lled Caerdydd i drafod yr hyn y mae pobl yn ei werthfawrogi am fwyd, yr hyn sydd ddim yn gweithio, a'r hyn sydd ei angen er mwyn gallu creu system fwyd iachach, tecach a mwy cynaliadwy.

Mynegodd y cyfranogwyr bryder mawr ynglŷn ag effaith y system fwyd bresennol ar iechyd, yr amgylchedd ac ar degwch cymdeithasol. Pwysleisiwyd materion fel helaethrwydd bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth a siopau bwyd brys, costau uchel bwyd maethlon a diffyg mynediad at gynnyrch ffres mewn ardaloedd incwm isel. Soniwyd hefyd am wastraff bwyd a deunydd pacio gormodol a phryderon ynglŷn â rheolaeth gorfforaethol a diffyg tryloywder. Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod tyfu a choginio bwyd yn grefft sy'n prysur ddiflannu ac roeddent o blaid addysgu sgiliau sy'n gysylltiedig â bwyd a mannau tyfu cymunedol.

Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd cymunedau hefyd yn dathlu rôl bwyd o ran dod â phobl at ei gilydd, cefnogi llesiant a chysylltu diwylliannau. Roeddent yn gwerthfawrogi gerddi cymunedol, coginio prydau cartref a mynediad at fwydydd byd-eang a  bwydydd sy'n briodol ddiwylliannol.

Galwodd y cyfranogwyr am newid systemig wedi'i ysgogi gan y llywodraeth, busnesau, ffermwyr a chymunedau'n cydweithio. Pwysleisiodd y cyfranogwyr eu dyhead am fwy o fwyd iach a maethlon fforddiadwy a hygyrch, sy'n cael ei dyfu'n lleol a thymhorol. Pwysleisiodd pob un o'r grwpiau bwysigrwydd ymwreiddio addysg bwyd ac iechyd ar draws pob oedran. Tynnodd y cyfranogwyr sylw at y broblem gwastraff bwyd a deunydd pacio, a mynegwyd yr awydd i weld pŵer yn symud o'r corfforaethau mawr i gymunedau.

Yn ystod y sgyrsiau bwyd, pleidleisiodd pob grŵp dros eu 3 prif ateb ar gyfer newid y system fwyd. Crynhowyd y rhain i'r 5 blaenoriaeth allweddol ganlynol:

**Ateb 1 – Ymwreiddio Llythrennedd Bwyd i Bawb:** Mae'r cyfranogwyr eisiau addysg bwyd gynhwysol gydol oes, o'r blynyddoedd cynnar i fod yn oedolyn. Mae hyn yn cynnwys sgiliau coginio, maetheg, ymwybyddiaeth o iechyd (yn arbennig ynglŷn â bwyd sydd wedi'i brosesu'n helaeth), cynaliadwyedd, moeseg, a llythrennedd ynghylch y system fwyd. Dylai addysg rymuso pobl i wneud dewisiadau gwybodus, cefnogi diwylliannau bwyd iach a chynaliadwy a meithrin gwytnwch cymunedol. Gallai un cam posibl i gefnogi hyn gynnwys lansio ymgyrch dinasyddiaeth fwyd ar gyfer Caerdydd.

**Ateb 2 – Lleihau Gwastraff Bwyd a Deunydd Pacio:** Mae'r cyfranogwyr yn ystyried bod gwastraff bwyd yn fethiant moesegol ac amgylcheddol, ac maent yn poeni am effaith gwastraff yn sgil deunydd pacio plastig ar yr amgylchedd. Mae'r cyfranogwyr yn galw am ddiwygio dyddiadau dod i ben, ailddosbarthu bwyd dros ben, cymorth i aelwydydd ac atebolrwydd i archfarchnadoedd. Fe wnaethant hefyd fynegi eu cefnogaeth gref i leihau deunydd pacio plastig a newid i ddefnyddio dewisiadau amgen cynaliadwy drwy reoleiddio ac arloesedd.

**Ateb 3 – Cefnogi Cadwyni Bwyd Lleol a Chynaliadwy:** Mae cymunedau yn awyddus i gael mwy o fynediad at fwyd lleol, tymhorol a bwyd sy'n ddiwylliannol briodol. Mae hyn yn cynnwys mannau tyfu (rhandiroedd, gerddi cymunedol), cymorth i ffermydd bach a hyrwyddo bwyta bwyd yn ei dymor. Mae lleihau'r pellter y mae bwyd yn ei deithio ac ailgysylltu pobl gyda tharddiad eu bwyd yn nodau allweddol. Gallai camau i gefnogi hyn gynnwys ehangu marchnadoedd bwyd ar draws Caerdydd.

**Ateb 4 – Arweinyddiaeth Gryfach gan y Llywodraeth:** Roedd y dinasyddion yn awyddus i'r llywodraeth gydlynu strategaethau cenedlaethol sy'n gysylltiedig ag iechyd, yr hinsawdd a thegwch. Mae hyn yn cynnwys rheoleiddio archfarchnadoedd, cefnogi ffermwyr, cyflwyno trethi ar fwydydd nad ydynt yn iach, sybsideiddio dewisiadau iach, a sicrhau bod bwyd yn cael ei drin fel budd i'r cyhoedd. Roedd y cyfranogwyr yn gweld corff canolog y llywodraeth neu "Weinyddiaeth Fwyd" a fyddai'n arwain y diwygiadau i'r system fwyd.

**Ateb 5 – Gwneud Bwyd Iach yn Fforddiadwy a Hygyrch:** Mae fforddiadwyedd yn rhwystr amlwg. Mae'r cyfranogwyr eisiau sicrhau mai bwyd iach yw'r dewis mwyaf hygyrch. Gallai camau gweithredu gynnwys talebau bwyd, mwy o fanteision, prisiau teg gan archfarchnadoedd, a mwy o siopau lleol yn gwerthu cynnyrch ffres-yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir niferoedd mawr o siopau bwyd brys.

## 2. CEFNDIR

### 2.A. BETH YW SGYRSIAU BWYD

Yn 2023 dechreuodd y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad (FFCC) Sgyrsiau Bwyd ledled y DU mewn ymateb i ddinasyddion yn galw am sgwrs genedlaethol ar systemau bwyd, gan gynnwys The People's Plan For Nature[1]. Mae'r rhaglen yn defnyddio deialog rhwng dinasyddion i ddatblygu barn yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn am yr hyn y mae pobl ei eisiau o ran bwyd a sut i ailgydbwyso'r system fwyd ar gyfer iechyd, natur a'r hinsawdd[2]. Dyluniwyd y gweithdai i fod yn hygyrch, yn hawdd eu deall a diddorol, ac i annog trafodaethau ar gyfaddawd ac atebion. Yn dilyn y gyfres o Sgyrsiau Bwyd a gynhaliwyd gan y Comisiwn yn 2024, cyhoeddodd y sefydliad becyn ffynhonnell agored o adnoddau i alluogi cymunedau i gynnal eu Sgyrsiau Bwyd eu hunain. Yn fethodoleg syml a chadarn, mae Sgyrsiau Bwyd yn galluogi cyfuno themâu ac atebion cenedlaethol.

### 2.B. CARDIFF'S ROLE AND FOOD CARDIFF'S MISSION

Mae Bwyd Caerdydd yn credu bod y bwyd yr ydym yn ei fwyta yn cael effaith fawr ar fywyd yng Nghaerdydd – nid yn unig ar iechyd pobl, ond ar gymunedau a busnesau, ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd, a'r amgylchedd hefyd. Mae bwyd da yn creu cymunedau cryf, iach a gwydn. Mae Bwyd Caerdydd yn bartneriaeth o unigolion a sefydliadau ar hyd a lled y ddinas. Mae'n

---

[1] Gweler hefyd The People's Plan for Nature has arrived

[2] Gweler hefyd The Food Conversation

gweithredu fel hyb ar gyfer cysylltu'r bobl a'r prosiectau sy'n gweithio i hybu bwyd iach, moesegol sy'n gynaliadwy'n amgylcheddol ar draws y ddinas; mae'n gweithredu fel llais dros newid ehangach.

Sefydlwyd Bwyd Caerdydd yn 2014 fel un o'r  Lleoedd Bwyd Cynaliadwy  cyntaf yn y DU. Yn ystod yr un flynedd ar ddeg diwethaf, mae wedi datblygu a thyfu'n sylweddol, ac mae wedi cael effaith amlwg ar lefel y ddinas gyfan. Yn 2021, bu Bwyd Caerdydd yn gweithio gydag unigolion, sefydliadau a chymunedau o bob cwr o'r ddinas i ddatblygu Strategaeth Bwyd Da - y map trywydd a arweiniodd at Gaerdydd yn ennill Gwobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy <https://foodcardiff.com/cy/caerdydd-yn-ennill-gwobr-o-fri-gwobr-aur-lleoedd-bwyd-cynaliadwy/>  yn 2024 - un o ddim ond pedwar lle yn y DU i gyflawni hynny. Cymerodd miloedd o bobl ran yn y sgyrsiau hyn a arweiniodd at ddatblygu'r 5 Nod ar gyfer Bwyd.

Yn 2019, cyhoeddodd Cyngor Caerdydd ei Strategaeth Fwyd gynhwysfawr ei hun ac yn 2024 pasiwyd Cynnig, a oedd yn canolbwyntio ar sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at fwyd iach o safn wedi'i gaffael yn gynaliadwy. Roedd y Cynnig hwn yn ailddatgan cefnogaeth y Cyngor i fudiad Bwyd Caerdydd ac yn ymrwymo'r Cyngor i wneud mwy, gan gynnwys diweddaru Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Fwyd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi mabwysiadu dull systemau cyfan ar gyfer gwella'r amgylcheddau bwyd sy'n effeithio ar iechyd cymunedau Caerdydd, gan ddefnyddio fframwaith Bwyd Da a Symud Caerdydd.

Cynhaliodd Bwyd Caerdydd[3] ddwy Sgwrs Fwyd yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2024 gyda Hope St Mellons ac un gyda'r Panel Cynghori Is-Sahara. Ariannwyd y rhain gan y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad ac a chafodd y canlyniadau eu bwydo i waith ehangach ledled y DU.

Yna cynhaliodd Bwyd Caerdydd saith Sgwrs Fwyd yng Nghaerdydd yn dilyn yr ymdrech genedlaethol, gan fanteisio ar ei bartneriaeth ledled y ddinas i gysylltu cymunedau, cynyddu llais dinasyddion a dylanwadu ar y Strategaeth Fwyd nesaf ar gyfer Caerdydd a'r strategaethau a'r cynlluniau eraill a grybwyllir uchod.

## 3. METHODOLEG

### 3.A. FFORMATAU'R GWEITHDAI

Cynhaliwyd sesiynau'r Sgwrs Fwyd wyneb yn wyneb fel sesiynau hanner diwrnod (~4 awr) a 90 munud, yn dibynnu ar argaeledd a dewis y grwpiau. Roedd y strwythur yn cynnwys gair o groeso a chyflwyniad gan yr hwyluswyr, a chyflwyniad i systemau bwyd drwy ddangos ffilmiau a chael trafodaethau. Hefyd cafwyd trafodaeth bellach ar yr hyn sy'n gweithio/ddim yn gweithio mewn systemau bwyd, a'r hyn sydd angen ei newid. Rhoddwyd blaenoriaeth i dri phrif ateb i heriau systemau bwyd yn ystod pob sesiwn drwy broses bleidleisio agored, cyn diolch i'r cyfranogwyr ac esbonio sut y byddai eu cyfraniadau'n cael eu defnyddio. Roedd y sesiwn hanner diwrnod hefyd yn cynnwys gweithgarwch creadigol, lle y gwahoddwyd y cyfranogwyr i ddod â

[3] Hafan | Bwyd Caerdydd

‘gwrthrych bwyd’ gyda nhw i ddechrau sgwrs (gweler yr atodiad), ffilm ychwanegol a oedd yn cyflwyno’r rhai sy’n rhan o’r system fwyd, ac amser estynedig ar gyfer trafodaethau. Gweler yr atodiadau am drosolwg llawn o’r gweithdai.

## 3.B. RECRIWTIO A CHYNNAL Y GWEITHDAI

Bu hwyluswyr profiadol o gwmni buddiant cymunedol Watch Africa yn arwain y broses o recriwtio grwpiau i gyfranogi, a chynnal gweithdai Sgwrs Fwyd. Targedwyd grwpiau cymunedol amrywiol yn uniongyrchol oedd â diddordeb mewn materion yn ymwneud â bwyd ar draws Caerdydd yn uniongyrchol. Ymhlith y cymhellion a’r cymorth a gynigiwyd i’r grwpiau roedd cymorth i logi lleoliadau, gwasanaeth arlwyo a gofal plant pan fyddai ei angen (e.e. cynigiwyd crèche yn y Sgwrs Fwyd yn Sblot). Dewisodd llawer o’r grwpiau ddefnyddio eu cyfleusterau eu hunain a threfnu eu bwyd eu hunain, gan gyfrannu’r taliadau y cytunwyd arnynt i’w hachosion da eu hunain (er enghraifft Banc Bwyd Caerdydd).

## 3.C. Y GRWPIAU CYFRANOGWYR

Cafodd saith o grwpiau cymunedol eu recriwtio, a chynhaliwyd saith sesiwn mewn lleoliadau ledled Caerdydd. Mynychodd cyfanswm o naw deg pump o gyfranogwyr o oedrannau, rhywiau, ethnigrwydd a galluoedd cymysg, gan gynnwys pobl â phrofiad personol o ddioddef tlodi bwyd.

**Gwirfoddolwyr Cymuned Sblot, 6 Mawrth 2025**

Mae Canolfan Gymunedol Sblot yn elusen llawr gwlad sy’n cefnogi pobl sy’n wynebu tlodi bwyd, tlodi tanwydd a thlodi cymdeithasol. Mae’n cynnig clwb brecwast wythnosol, digwyddiadau cymunedol a chyfleoedd i wirfoddoli. Cynhaliwyd y Sgwrs Fwyd yng Nghanolfan STAR, Y Sblot. Nododd y cyfranogwyr Weinyddiaeth Fwyd, gwahardd plastig, a buddsoddi mewn addysg bwyd a sgiliau coginio fel eu 3 prif ateb.

**Gweithredu yng Nghaerau a Threlái (ACE), 7 Mawrth 2025**

Sefydliad datblygu cymunedol yw ACE sy’n cynnig clybiau bwyd, prosiectau garddio a gweithgareddau llesiant. Mae ACE yn gartref i oergell gymunedol brysur ac mae’n cynnig prydau bwyd am ddim gan ddefnyddio bwyd sy’n cael ei roi fel rhoddion. Cynhaliwyd y sgwrs fwyd yn y Dusty Forge yn Nhrelái a Chaerau. Pleidleisiodd y cyfranogwyr dros arweinyddiaeth gan y llywodraeth (trethi a chymorthdaliadau i newid prisiau bwyd), hybu bwyd lleol a bwyta bwydydd yn eu tymor ac arferion cynaliadwy mewn bwyd cyhoeddus (h.y. bwyta mwy o gorbys) fel eu 3 prif ateb.

**Gwirfoddolwyr Global Gardens, 12 Mawrth 2025**

Mae Global Gardens yn brosiect tyfu bwyd cymunedol sy’n hybu cynaliadwyedd, cyfnewid arferion diwylliannol ac addysg bwyd drwy arddio, coginio a digwyddiadau tymhorol. Cynhaliwyd y Sgwrs Fwyd yn Rhandir Global Gardens, ac roedd yn cynnwys cinio a wnaed o lysiau a oedd wedi’u tyfu yn yr ardd gymunedol. Dewisodd y cyfranogwyr Weinyddiaeth Fwyd, tyfu bwyd lleol ar draws Caerdydd, ac addysg ar ‘wir gost bwyd’ (h.y. effeithiau iechyd, amgylcheddol a’r hinsawdd) fel eu 3 prif ateb.

**Bwyd Banc Caerdydd, 13 Mawrth 2025 (sesiwn 90 munud)**

Mae Banc Bwyd Caerdydd yn darparu parseli bwyd brys a gwasanaethau cymorth. Mae gwirfoddolwyr yn helpu i bacio bwyd, rheoli stoc a chefnogi cleientiaid. Cynhaliwyd y Sgwrs Fwyd yn y warws yng Nghanolfan Fusnes Bae Caerdydd. Roedd y cyfranogwyr yn bobl hŷn/gwirfoddolwyr sydd wedi ymddeol. Fe wnaethant bleidleisio dros Addysg ar fwyd a maeth, mesurau lleihau gwastraff bwyd a chryfhau cymorth lles fel eu 3 prif ateb.

**Family Action, 14th Mawrth 2025**

Elusen genedlaethol sy'n cynorthwyo teuluoedd drwy argyfyngau yw Family Action. Yng Nghaerdydd, mae'n cynnal Clwb BWYD sy'n cynnig bwyd am gost isel a lleihau gwastraff. Cynhaliwyd y Sgwrs Fwyd gyda defnyddwyr gwasanaethau Family Action yn Ysgol Gynradd Y Tyllgoed. Dewisodd y cyfranogwyr farchnadoedd ffermwyr fforddiadwy mewn ardaloedd o amddifadedd, addysg drwy ymgyrchoedd cyfathrebu bwyta'n iach, a threthu siopau bwyd brys er mwyn gallu sybsideiddio cynnyrch ffres fel eu 3 prif ateb.

**KIRAN Cymru, 15th Mawrth 2025 (sesiwn 90 munud)**

Mae Kiran Cymru yn sefydliad llawr gwlad sy'n cefnogi cymunedau ethnig lleiafrifol drwy addysg, gwaith gwrth-hiliaeth a mentrau byw cynaliadwy. Mynychwyd y Sgwrs Fwyd, a gynhaliwyd yn Ocean Park, gan famau gyda'u plant ifanc. Oherwydd rhwystrau ieithyddol, lleisiau'r plant oedd i'w clywed fwyaf yn y sgwrs, ac mae'r 3 prif ateb yn cynrychioli eu barn: gwaharddiad ar ddeunydd pacio plastig, gwaharddiad ar ffermio batri ac addysg bwyd i bawb. Roedd y plant yn fwyaf pryderus ynghylch lles anifeiliaid, ac yn awyddus i bwysleisio eu bod yn mwynhau bwyd brys, er eu bod yn gwybod nad yw'n opsiwn iach.

**Gardd Gegin Grangetown, 17 Mawrth 2025**

Prosiect bwyd cymunedol yw Gardd Gegin Grangetown sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr sy'n cyfuno tyfu bwyd, ailddosbarthu bwyd dros ben, ac addysg ar gynaliadwyedd. Cynhaliwyd y Sgwrs Fwyd yn Ysgol Feithrin Grangetown a fynychwyd gan wirfoddolwyr benywaidd o'r gymuned. Fe wnaethant ddewis trefniadau llywodraethu lleol i gefnogi ffermydd bach a gweithgaredd tyfu cymunedol, archfarchnadoedd yn hybu cyflenwyr lleol ac ailgyflwyno addysg y cartref a bwyd mewn ysgolion fel eu 3 prif ateb.

Arsylwodd dau bâr o fyfyrwyr ôl-raddedig Systemau Bwyd Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd sesiynau yn ACE a Banc Bwyd Caerdydd i gynnal ymchwil ar ymgysylltiad y cyhoedd â systemau bwyd. Mynychodd fideograffydd y sesiynau Global Gardens a Family Action er mwyn cynhyrchu cynnwys fideo ar gyfer Bwyd Caerdydd. Roedd yr ymchwilydd yn bresennol mewn pedair sgwrs (Gwirfoddolwyr Cymunedol Sblot, ACE, Global Gardens, KIRAN) a chafodd nodiadau gan yr hwyluswyr a'r cyfranogwyr, yn ogystal â'r 3 ateb a ddeilliodd o bob sesiwn.

## 4. CANFYDDIADAU ALLWEDDOL – GOLWG FANWL AR YR ATEBION

**Crynhowyd pump ateb a ddeilliodd o'r grwpiau yn 3 prif ateb. Roedd rhywfaint o gyfuno atebion tebyg – er enghraifft, cafodd y syniad o 'Weinyddiaeth Fwyd' ei gyfuno ag atebion eraill sy'n pwysleisio pwysigrwydd arweinyddiaeth gan y llywodraeth. Mae rhywfaint o orgyffwrdd o hyd rhwng yr atebion. Er enghraifft, byddai Gweinyddiaeth Fwyd (ateb 4) hefyd yn gyfrifol am hybu Addysg Bwyd (ateb 1). Yn yr un modd ag y mae systemau bwyd yn gymhleth ac yn gysylltiedig â'i gilydd, gan gyfuno nifer o gyfranwyr a pherthnasoedd cymhleth, rhyngddibynnol, felly hefyd y mae'r atebion a gynigiwyd gan gyfranogwyr y Sgwrs Fwyd, a'u gweledigaethau ar gyfer newid.**

### 4.A. YMWREIDDIO LLYTHRENNEDD BWYD I BAWB

*"Mae angen addysg arnom am ddewisiadau iach."*

Cyfranogwr y Sgwrs Fwyd

*"Mae angen ailgyflwyno addysg a sgiliau bwyd mewn ysgolion, sydd wedi diflannu o'r gymdeithas sydd ohoni heddiw."*

Cyfranogwr y Sgwrs Fwyd

**Roedd y cyfranogwyr yn credu bod addysg bwyd yn hollbwysig ar gyfer creu system fwyd iachach, tecach a mwy cynaliadwy. Fe wnaethant siarad o blaid addysg bwyd gydol oes sy'n ymarferol, ac yn berthnasol i gefndir diwylliannol a chymdeithasol-economaidd pobl. Nid oedd y cyfranogwyr yn ymwybodol o unrhyw fentrau cyfredol neu flaenorol gan y llywodraeth ar addysg bwyd, cyfeiriodd y rhan fwyaf at ymgyrchoedd bwyd Jamie Oliver[4].**

**Mae'r cyfranogwyr am weld Addysg Ymarferol ar Goginio, Maeth ac Iechyd, gan gynnwys addysgu plant ac oedolion sut i goginio prydau cartref iach a defnyddio cynhwysion tymhorol a fforddiadwy, fel corbys a llysiau. Maent yn credu y gall addysg maeth helpu i fynd i'r afael â chlefydau sy'n gysylltiedig â deiet a bwyta bwyd sydd wedi'u prosesu'n helaeth, a helpu i atal clefydau, herio arferion bwyd niweidiol a hybu arferion iachach ar draws cymdeithas. Pwysleisiodd y cyfranogwyr hefyd bwysigrwydd Llythrennedd Systemau Bwyd, yn arbennig ymhlith plant a phobl ifanc a dyhead i fyfyrwyr ddeall o ble mae eu bwyd yn dod, sut mae'n cael ei dyfu a'i effaith ar yr amgylchedd. Mae'r cyfranogwyr hefyd yn awyddus i addysg hybu dealltwriaeth o Gynaliadwyedd, gan gynnwys gwybodaeth am amaeth-ecoleg, bioamrywiaeth a'r cysylltiad rhwng yr hinsawdd a bwyd. Roedd y cyfranogwyr o'r farn ei bod yn bwysig annog Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol a Moesegol drwy addysg ac ymgyrchoedd sy'n dathlu diwylliannau a thraddodiadau bwyd byd-eang, ac archwilio materion moesegol fel sofraniaeth bwyd, pŵer corfforaethol, a chyflog teg i gynhyrchwyr.**

**Roedd gweledigaeth y cyfranogwyr o Ddulliau Cyflawni yn cynnwys addysg bwyd integredig yn y cwricwlwm i Gymru a lleoliadau blynyddoedd cynnar, a chyfeiriwyd at fentrau fel tyfu bwyd**

---

[4] Campaign news | Jamie Oliver campaigns

**mewn ysgolion ac 'ysgolion coedwig' fel enghreifftiau cadarnhaol. Roedd y cyfranogwyr yn awgrymu dosbarthiadau coginio mewn ysgolion, clybiau ieuenctid a hybiau cymunedol, ac ymgyrchoedd sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, platfformau ar-lein a gweithio gydag unigolion dylanwadol i rannu ryseitiau a gwybodaeth am fwyd. Pwysleisiodd y cyfranogwyr hefyd yr angen i addysgu rhieni am fwyd a maeth er mwyn sicrhau negeseuon cyson mewn ysgolion a chartrefi.**

## 4.B. LLEIHAU GWASTRAFF BWYD A DEUNYDD PACIO

*"Dyw hi ddim yn taflu bwyd pan mae dal yn fwytadwy."*

Cyfranogwr y Sgwrs Fwyd

*"Dylen ni fynd â phobl y tu ôl i'r llenni i weld y gwastraff."*

Cyfranogwr y Sgwrs Fwyd

**Mae'r cyfranogwyr yn ystyried gwastraff bwyd yn fethiant moesol, amgylcheddol a systemig — un y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef drwy gamau gweithredu cydgysylltiedig ar draws cymdeithas. Maent yn credu na ddylid gwastraffu unrhyw fwyd bwytadwy, yn arbennig pan mae pobl yn mynd heb fwyd. Mae cyfranogwyr yn credu y gellir atal gwastraff drwy well addysg, seilwaith a rheoleiddio ac y dylid rhannu'r cyfrifoldeb am wneud hynny, ond mai archfarchnadoedd, llywodraeth a diwydiant sydd â'r pŵer mwyaf i sbarduno newid. Soniodd y cyfranogwyr yn aml am wastraff bwyd a gwastraff deunydd pacio fel rhan o'r un broblem, gyda'r ddau yn cyfrannu at niwed amgylcheddol.**

**Mae'r cyfranogwyr eisiau gweld Diwygiadau i Labeli Bwyd. Disgrifiodd llawer y dyddiadau 'ar ei orau cyn' fel gwybodaeth gamarweiniol sy'n cyfrannu at wastraff diangen. Roeddent yn galw am labelu cliriach, addysgu'r cyhoedd ar ddiogelwch bwyd a diwygiadau polisi i leihau dryswch a gorwaredu. Mynegodd y cyfranogwyr gefnogaeth gref i gynlluniau fel "Too Good To Go"[5], oergelloedd cymunedol a sticeri melyn archfarchnadoedd (ar gyfer bwydydd sy'n agosáu at eu dyddiad dod i ben), sy'n lleihau gwastraff ac yn cefnogi Ailddosbarthu Bwyd Dros Ben.**

**Galwodd y cyfranogwyr am fwy o hybiau ailddosbarthu lleol, partneriaethau rhwng manwerthwyr a grwpiau cymunedol a chymhellion i fusnesau roi bwyd dros ben i fudiadau o'r fath. Ar lefel aelwydydd, mae'r cyfranogwyr yn rhannu gwybodaeth a sgiliau am swmp goginio a rhewi, defnyddio bwyd dros ben yn greadigol a siopa'n glyfar, neu gyda 'chyfaill bwyd' i osgoi gorbrynu. Roeddent yn awyddus i rannu'r awgrymiadau hyn ymysg ei gilydd, gan gyfeirio at gyfathrebu ac addysg ar lawr gwlad fel ffordd bwerus o Newid Arferion Aelwydydd. Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at ddosbarthiadau coginio cymunedol, ryseitiau ar-lein ac awgrymiadau**

[5] https://www.toogoodtogo.com/

**ar gyfer y cartref a mentrau rhannu bwyd dan arweiniad y gymuned fel mannau lle roeddent wedi dysgu i leihau eu gwastraff bwyd, gan arbed arian iddynt.**

**Roedd y cyfranogwyr yn amheus o fentrau rhannu bwyd archfarchnadoedd, ac er eu bod yn ymwybodol o'r ffaith bod archfarchnadoedd yn rhannu bwyd dros ben yn achlysurol, y nhw yw'r rhai sy'n prynu gormod o stoc, yn cynhyrchu gwastraff ac yn cynyddu'r prisiau. Galwodd y cyfranogwyr am Ofynion Cyfreithiol i Archfarchnadoedd er mwyn monitro ac adrodd ar wastraff, cyfrannu bwyd bwytadwy dros ben i fentrau lleol, rhoi'r gorau i brynu gormod o stoc a rhoi'r gorau i ddefnyddio plastig a dechrau defnyddio deunydd pacio cynaliadwy. Roedd y cyfranogwyr yn beirniadu safoni diangen a bod gormod o gynnyrch "amherffaith" yn cael ei wastraffu ar hyn o bryd. Roeddent o'r farn mai'r llywodraeth sydd yn y sefyllfa orau i ddeddfu ar arferion archfarchnadoedd a chyfyngu gwastraff bwyd a deunydd pacio ar lefelau manwerthu a chyfanwerthu, cynnig cymhorthdal ar gyfer technolegau lleihau gwastraff bwyd a chyflwyno Deunyddiau Pacio Cynaliadwy amgen.**

## 4.C. CEFNOGI CADWYNI CYFLENWI BWYD LLEOL A CHYNALIADWY

*" Ei gwneud yn haws i bobl dyfu bwyd."*

Cyfranogwr y Sgwrs Fwyd

*"Mae marchnadoedd ffermwyr lleol, amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned a chynlluniau bocsys yn wych."*

Cyfranogwr y Sgwrs Fwyd

**Mae cyfranogwyr o'r farn bod bwyd yn ei dymor yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd, iechyd a gwydnwch cymunedol, ac maent hefyd yn credu bod cynnyrch lleol a thymhorol yn fwy blasus, maethlon a buddiol. Maen nhw eisiau ailgysylltu pobl, yn enwedig pobl ifanc, â gwybodaeth am o ble mae eu bwyd yn dod.**

**Mae'r cyfranogwyr yn awyddus i weld Mwy o Fannau Tyfu gan gynnwys rhandiroedd, gerddi cymunedol a thiroedd ysgol bwytadwy a dyrannu tir trefol ar gyfer tyfu a bioamrywiaeth. Roedd y cyfranogwyr yn gefnogol o Gynhyrchwyr Lleol, ac roedd llawer ohonynt o'r farn eu bod yn cael eu hecsbloetio. Roedden nhw eisiau gweld ffermwyr a chyflenwyr lleol bach a chynaliadwy yn cael eu hybu drwy farchnadoedd ffermwyr a phartneriaethau gydag archfarchnadoedd a chymorthdaliadau a grantiau ar gyfer ffermio adfywiol a thyfu corbys a chnydau eraill sy'n ystyriol o'r hinsawdd. Galwodd y cyfranogwyr am Addysg ac Ymwybyddiaeth o fwyta bwyd yn ei dymor, milltiroedd bwyd a 'gwir gost' bwyd. Roeddent hefyd o'r farn bod angen gwneud mwy i sicrhau bod Bwyd Lleol a Thymhorol yn Hygyrch a Fforddiadwy, yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig.**

## 4.D. ARWEINYDDIAETH GRYFACH GAN Y LLYWODRAETH

*"Gallai gweinyddiaeth fwyd wella tryloywder systemau bwyd."*

Cyfranogwr y Sgwrs Fwyd

*"Mae Llywodraethau yn gyfrifol am bolisïau sy'n newid y system."*

Cyfranogwr y Sgwrs Fwyd

**Nododd llawer o'r cyfranogwyr fod llywodraeth leol a chenedlaethol yn gyfranwyr allweddol at ysgogi newid i'r system. Er bod llawer yn amheus ac yn sinigaidd ynghylch cymhelliant a dibynadwyedd gwleidyddion, roeddent yn dal i fynegi awydd cryf am arweinyddiaeth deg ac atebol ac roeddent yn galw ar y llywodraeth i gymryd cyfrifoldeb am lunio system fwyd deg a chynaliadwy.**

**Galwodd y cyfranogwyr am greu Gweinyddiaeth Fwyd bwrpasol i oruchwylio polisi bwyd, addysg, lleihau gwastraff a chynaliadwyedd a chydlynu ymdrechion ar draws y meysydd iechyd, addysg, amaethyddiaeth a'r amgylchedd.**

**Roeddent am weld Arweinyddiaeth gan y Sector Cyhoeddus sy'n gwarantu bod prydau bwyd maethlon yn cael eu gweini mewn ysgolion, ysbytai a chartrefi gofal a threfniadau Caffael Cyhoeddus sy'n cefnogi cynhyrchwyr lleol a moesol. Mae'r cyfranogwyr yn cefnogi Symud i Ffwrdd o Fuddiannau Busnes Bwyd Mawr a chanolbwyntio ar gymunedau a mentrau annibynnol. Maent eisiau gweld y llywodraeth yn cefnogi tyfwyr cymunedol, ffermwyr cynaliadwy a sofraniaeth bwyd.**

**Galwodd y cyfranogwyr am Ddiwygiadau Cyllidol, Rheoleiddio'r Farchnad, ac Addysg ac Ymgyrchoedd Cyhoeddus wedi'u hyrwyddo gan y Weinyddiaeth Fwyd.**

## 4.E. SICRHAU BOD BWYD IACH YN FFORDDIADWY A HYGYRCH

*"Dylai pawb allu cael mynediad at fwydydd iach a fforddiadwy—i wneud hyn mae angen arian ar bobl."*

*Cyfranogwr y Sgwrs Fwyd*

*"Dylai'r math mwyaf fforddiadwy o fwyd fod yn fwyd iach."*

*Cyfranogwr y Sgwrs Fwyd*

**Mae'r cyfranogwyr yn awyddus i weld offer economaidd yn cael eu defnyddio i newid ymddygiad defnyddwyr a dynameg y farchnad tuag at iechyd a chynaliadwyedd. Roeddent o'r farn, hyd yn**

**oed heb Weinyddiaeth Fwyd bwrpasol, y dylai'r llywodraeth fwrw ymlaen â Diwygiadau Cyllidol i drethu bwyd brys, diodydd llawn siwgr a bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth a defnyddio'r refeniw i sybsideiddio cynnyrch ffres, tymhorol ac organig. Galwodd y cyfranogwyr am Gymorth wedi'i Dargedu ar gyfer Aelwydydd Incwm Isel, er enghraifft talebau bwyd a buddion i sicrhau y gall pawb fforddio bwyd maethlon a sicrhau mai bwyd iach yw'r dewis mwyaf fforddiadwy. Roeddent yn cefnogi Rheoleiddio'r Farchnad i reoli'r hyn yr oedd llawer yn ei ystyried yn ormodedd o safleoedd gwerthu bwyd nad yw'n iach, ac i hyrwyddo cynigion bwyd a strategaethau prisio iachach mewn archfarchnadoedd. Roedd y cyfranogwyr o'r farn y dylai'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus hyrwyddo Addysg ac Ymgyrchoedd Cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o fwyta'n iach a gwir gost bwyd sothach.**

## 5. TRAFODAETH

### 5.A. CYDFANTEISION A DYMUNIADAU SY'N GWRTHDARO

**Byddai'r atebion a nodwyd gan y cyfranogwyr yn gwella systemau bwyd yn ogystal â chyflwyno ystod o Gydfanteision i unigolion, cymunedau a'r llywodraeth sy'n mynd y tu hwnt i'r prif nod o wella systemau bwyd.**

*"Pe bai siwgr wedi'i ddogni, byddai llai o broblemau iechyd deintyddol, llai o broblemau fel diabetes a gordewdra—byddai dewisiadau bwyd iachach yn lleihau'r gost i'r GIG."*

Cyfranogwr y Sgwrs Fwyd

**Gall Canlyniadau Iechyd Gwell sy'n gysylltiedig â mynediad at fwyd iach, newidiadau i arferion bwyd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd leihau clefydau sy'n gysylltiedig â deiet (e.e. diabetes, gordewdra), gwella llesiant meddyliol a chorfforol a lleihau'r pwysau ar y GIG. Gellir atal llawer o fathau cronig o salwch drwy ddeiet gwell, a fydd yn lleihau costau gofal iechyd a chostau budd-daliadau yn y tymor hir. Gall newidiadau i systemau bwyd gefnogi natur drwy leihau gwastraff bwyd a deunydd pacio, llygredd o blaladdwyr a gwrteithiau ac allyriadau carbon is drwy fwyd lleol a thymhorol.  Gall Gwydnwch Economaidd pobl a chymunedau gynyddu drwy roi cyflog tecach i ffermwyr a chynhyrchwyr, bwyd iach fforddiadwy i aelwydydd incwm isel a chefnogaeth i fusnesau bach a thyfwyr lleol. Mae mwy o fynediad at fwyd maethlon, waeth beth yw incwm neu god post pobl, grymuso pobl drwy dyfu a choginio yn y gymuned a dathlu amrywiaeth bwyd diwylliannol yn cefnogi Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol. Mae Addysg Bwyd a Sgiliau Bywyd, er enghraifft sgiliau coginio, cyllidebu a llythrennedd bwyd gwell, yn dylanwadu ar ddewisiadau bwyd ar draws pob oedran ac mae dysgu rhwng y cenedlaethau  a rhannu gwybodaeth gymunedol yn datblygu Gwydnwch Cymunedol. Gall rhwydweithiau bwyd lleol cryfach a llai o ddibyniaeth ar gadwyni cyflenwi byd-eang gynyddu sofraniaeth bwyd.**

**Er gwaethaf yr egni gobeithiol a chadarnhaol a welwyd yn y Sgyrsiau Bwyd, mae mewnbwn y cyfranogwyr hefyd yn datgelu achosion o wrthdaro sy'n dod i'r amlwg a dyheadau sy'n gwrthdaro â'i gilydd. Mae'r cyfranogwyr yn gwerthfawrogi cael mynediad at fwydydd sy'n**

**ddiwylliannol briodol a bwydydd byd-eang, ond ar yr un pryd maent yn mynegi pryder ynghylch milltiroedd awyr, allyriadau carbon, a chost amgylcheddol mewnforio bwyd.**

*"Rydym yn cael bwyta bwyd o bob rhan o'r byd"- "Dylem flaenoriaethu bwyd lleol"*

Cyfranogwyr y Sgwrs Fwyd

**Gwerthfawrogir hygyrchedd archfarchnadoedd a safleoedd bwyd brys a'r amrywiaeth a gynigir, ond mae'r cyfranogwyr hefyd yn beirniadu eu rôl o ran hybu deiet nad yw'n iach, gorbecynnu a thanseilio busnesau lleol bach. Mae pobl eisiau gwneud dewisiadau gwybodus a chymryd cyfrifoldeb personol, ond roeddent hefyd yn cydnabod bod pŵer corfforaethol, marchnata a strwythurau prisio yn cael dylanwad mawr ar y dewisiadau hynny. Ac fel y dywedodd y plant yn ystod sgwrs KIRAN - weithiau mae'r hyn sy'n blasu'n dda yn bwysicach iddynt na'r hyn sy'n dda i'w hiechyd. Mae'r cyfranogwyr eisiau i fwyd iach fod yn rhatach ac yn fwy hygyrch, maent hefyd yn eiriol dros brisiau teg a gwell cefnogaeth i ffermwyr, sy'n amlygu'r tensiwn rhwng fforddiadwyedd a chydraddoldeb. Mae prosesau cadw a thuniau yn cael eu gwerthfawrogi am eu bod yn ymestyn oes bwyd ac yn cefnogi'r rhai mewn angen, ond mynegodd y cyfranogwyr bryder yr un pryd ynglŷn ag effeithiau bwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth ar iechyd a dyhead i symud i ffwrdd oddi wrth fwydydd wedi'u prosesu. Cafodd archfarchnadoedd eu canmol am gyfrannu bwyd a chynnig ffrwythau am ddim i blant, ond cawsant eu beirniadu hefyd am brynu gormod o stoc, gwastraff, a blaenoriaethu elw dros les y cyhoedd. Roedd y cyfranogwyr yn credu'n gryf y dylid newid arferion ac addysgu unigolion, ac mewn pŵer cymunedol a gweithredu ar lawr gwlad - ar yr un pryd, pwysleisiwyd fod newid go iawn yn gofyn am ymyrraeth gan y llywodraeth, diwygio polisi, ac atebolrwydd corfforaethol.**

**Mae cymhlethdodau'r system fwyd yn deillio o'r rhyngweithio cymhleth rhwng y ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a gwleidyddol ar draws rhwydweithiau cynhyrchu, prosesu, dosbarthu a defnyddio byd-eang. Ac fel pobl, rydym yn aml yn arddangos ymddygiad, rhyng-ddibyniaethau a dymuniadau gwrthgyferbyniol, Rhaid i ddealltwriaeth ddofn o gymhlethdod ymddygiadol fod yn rhan o atebion integredig, cyfannol a all fynd i'r afael â heriau'r system fwyd.**

## 5.B. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

*"Mae systemau bwyd yn cael effeithiau gwleidyddol, masnachol a hanesyddol."*

Cyfranogwr y Sgwrs Fwyd

**Er mai dim ond un cyfranogwr a gyfeiriodd yn benodol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae llawer o'r teimladau, gobeithion a'r gweledigaethau ar gyfer newid a fynegwyd gan y cyfranogwyr yn y sesiynau Sgyrsiau Bwyd yn cyd-fynd â'r darn allweddol hwn o ddeddfwriaeth Gymreig, a'i saith nod llesiant serch hynny:**

**Mae Cymru Lewyrchus yn wlad sy'n datblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth yn y sectorau bwyd, ffermio a lletygarwch, sy'n creu cyfleoedd ym maes arloesedd gwastraff, ailddosbarthu a deunydd pacio cynaliadwy, sy'n atgyfnerthu economïau lleol drwy gefnogi ffermwyr a chynhyrchwyr bach ac sy'n lleihau rhwystrau economaidd at fyw'n iach, cefnogi llesiant a chynhyrchiant, ac alinio polisïau bwyd â datblygiad economaidd a buddsoddiad cyhoeddus.**

**Mae Cymru Gydnerth yn cefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol drwy leihau gwastraff ac arferion cylchol, yn gwella bioamrywiaeth ac iechyd y pridd drwy arferion amaeth-ecolegol ac yn cefnogi gwydnwch hirdymor y system fwyd drwy gynllunio strategol.**

**Mae Cymru iachach yn grymuso pobl i wneud dewisiadau bwyd gwybodus, gan atal clefydau sy'n gysylltiedig â deiet, yn annog bwyd mwy ffres a diogel drwy fynediad gwell a threfniadau ailddosbarthu gwell, yn cydlynu strategaethau cenedlaethol i wella deiet a lleihau clefydau ac yn gwneud bwyd maethlon yn ddewis diofyn, gan wella canlyniadau iechyd y cyhoedd.**

**Mae Cymru sy'n Fwy Cyfartal yn sicrhau bod gan bobl o bob oed a chefndir ar draws Cymru gyfan fynediad at lythrennedd bwyd a sgiliau bywyd, yn gwella mynediad at fwyd ffres, sy'n ddiwylliannol briodol mewn ardaloedd sy'n cael eu tanwasanaethu, yn mynd i'r afael â thlodi bwyd ac anghydraddoldebau sy'n seiliedig ar god post ac yn ymgorffori mynediad teg at fwyd iach drwy bolisïau a diwygiadau i brisiau.**

**Mae Cymru o Gymunedau Cydlynus yn atgyfnerthu cysylltiadau cymunedol drwy ddysgu a choginio ar y cyd, yn datblygu cymunedau drwy fannau tyfu a rhwydweithiau bwyd lleol ac yn cryfhau mynediad lleol a mentrau bwyd dan arweiniad y gymuned.**

**Mae Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu yn cefnogi ei chymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith sy'n dibynnu ar incwm ffermio drwy brisiau teg sy'n cydnabod 'gwir gost' bwyd, a deddfwriaeth sy'n eu galluogi i reoli eu tir yn gynaliadwy ac mewn cytgord â natur.**

**Mae Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang yn hybu defnydd cynaliadwy ac ymwybyddiaeth o systemau bwyd byd-eang, yn lleihau allyriadau carbon a llygredd sy'n gysylltiedig â bwyd, gwastraff deunydd pacio a milltiroedd bwyd ac yn ymgorffori cynaliadwyedd a moeseg mewn trefniadau llywodraethu bwyd.**

**Yn gryno, mae Cymru sy'n malio am Lesiant ei Chenedlaethau Presennol a Chenedlaethau'r Dyfodol yn Gymru sy'n mynd i'r afael ag anghyfiawnder mewn systemau bwyd, ac yn adeiladu ar y cyfleoedd i ddefnyddio bwyd fel arf ar gyfer iechyd, gwydnwch, tegwch a llesiant i bawb, nawr ac i'r dyfodol.**

*"Mae angen arloesedd a chreadigrwydd arnom er mwyn newid y system."*

*Cyfranogwr y Sgwrs Fwyd*

## 5.C. BETH NESAF

**Mae Bwyd Caerdydd yn dechrau ar ei bennod nesaf, ar ôl ennill Gwobr Aur glodwiw Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, lle y cafwyd yr adborth a ganlyn:**

***"Yr hyn sy'n sefyll allan yn arbennig yng Nghaerdydd yw bod mudiad bwyd da cryf iawn ar lawr gwlad yma, y mae pobl yn cymryd rhan ynddo a lle mae'r cymunedau wedi'u cynrychioli'n dda iawn. Ar ben hynny, ceir cefnogaeth wych gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. Mae gweld y ffyrdd maen nhw'n dod at ei gilydd ac yn gweithio gyda'i gilydd ym mhrifddinas Cymru, yn eithaf rhyfeddol."***

**Roedd y saith Sgwrs Fwyd hyn yn anelu at adeiladu ar hyn, i sicrhau y gall dinasyddion a chymunedau Caerdydd gyd-gynhyrchu'r hyn sy'n digwydd nesaf. Yn ogystal â'r Sgyrsiau Bwyd, mae arolwg cyhoeddus wedi'i lansio i gasglu mewnwelediadau allweddol ar arferion, dewisiadau a heriau bwyd lleol, gyda'r nod o greu tirlun bwyd iachach, mwy cynaliadwy, ffyniannus, grymusol a chysylltiedig i bawb. Lansiwyd yr adroddiad hwn ar y Sgyrsiau Bwyd mewn cynhadledd undydd er mwyn edrych tuag at y degawd nesaf, trafod yr hyn y mae pobl a phartneriaid yng Nghaerdydd eisiau ei weld erbyn 2025 o ran bwyd cynaliadwy - a sut y gallem gyflawni hynny.**

***Hoffwn ddiolch o waelod calon i dîm Bwyd Caerdydd, a'r holl bobl garedig a gofalgar a rannodd eu gobeithion yn y sgyrsiau bwyd. Diolch yn fawr iawn.***

**Ymchwiliwyd ac ysgrifennwyd yr adroddiad hwn ar gyfer Bwyd Caerdydd gan Dr Sarah Younan/Cwmni Buddiant Cymunedol Watch Africa**

# 6. ATODIAD

## 6.A. TAFLEN RECRIWTIO

Ar gael ar gais

## 6.B. AGENDA GWEITHDY: AGENDA A GWEITHGAREDDAU HANNER DIWRNOD

Ar gael ar gais

## 6.C. AGENDA GWEITHDY: AGENDA A GWEITHGAREDDAU SESIWN 90 MUNUD

Ar gael ar gais

## 6.CH. FFORMAT GWRTHRYCH BWYD AC YMATEBION Y CYFRANOGWYR

Ar gael ar gais

## 6.D. NODIADAU BRAS Y CYFRANOGWYR

Ar gael ar gais

## 6.DD. NODIADAU WEDI'U CODIO YN ÔL THEMA

Ar gael ar gais